## Gweddi yn nhymor y Pasg

**O Salm 103**
O Arglwydd, cynhaliwr ein heneidiau ac ysgogydd ein dyheadau, deuwn yn yr oedfa arbennig hon i gydnabod dy arglwyddiaeth a'th hawliau arnom ni yn ein diolchgarwch didwyll am dy ddaioni mawr.

**Dywedwn fel cynulleidfa:**
Gogoniant i'r Tad a greodd y byd,
Gogoniant i'r Mab a'n prynodd mor ddrud,
Gogoniant i'r Ysbryd a'n pura'n ddi-lyth:
I'r Drindod mewn undod
Rhown foliant dros byth.

Nid oes gennym destun ond testun diolch am y modd y cedwaist ni yn dy Efengyl a rhoddi cyfle i ni wybod am fyd sy'n odidocach na'r byd a ddarperaist ar ein cyfer, sef y bywyd ysbrydol a gostrelwyd yn gyflawn ynot Ti, ac yn dy Fab, a thrwy'r Ysbryd Glân, anadl einioes yr Eglwys. Cydnabyddwn yn ddiolchgar dy feibion a'th ferched, a fu fel ninnau yn bererinion ar lwybrau amser ac yn dyheu am dy nodded yng nghanol eu gwae a'u gofidiau, eu gwendidau a'u beiau, yn troi mewn edifeirwch am faddeuant o'u methiant i fyw yn ysbrydol. Un felly oedd John Newton, a fu'n forwr ar longau'r caethweision cyn iddo weld y Goleuni a thyfu'n ysbrydol. Mynegodd ei brofiad ar lwybr y gân:

> 'Yno'n glwyfus, yno'n friw,
> bron heb obaith am gael byw,
> ar fy nghyflwr torrodd gwawr –
> rhyfedd im gael gras mor fawr.'

Diolch am y gras hwn sy'n newid ein holl ymddygiad a'n meddyliau. Dywedwn ninnau gyda'r emynydd:

> 'Ni'th ollyngaf, Arglwydd, ddim –
> dysgodd gras y weddi im.
> Sail i'm gwrthod mwy nid oes
> tra fwy'n dadlau angau'r Groes.'

Yn enw Iesu, yr hwn a'n dysgodd i weddïo Gweddi'r Arglwydd.